



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

DYDDIAD 23 Ebrill 2012

GAN Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cafodd Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ei osod heddiw, ar 23 Ebrill 2012.

Mae'r Bil yn amlinellu nifer o gynigion a fydd yn gwneud ysgolion yn fwy atebol drwy gyfuno, diweddarau a, lle bo angen, drwy dynhau safonau a dulliau rheoli. Mae'r Bil yn sefydlu prosesau a fydd yn cyfrannu at ein hagenda i wella ysgolion; i ddiwygio ac i gyflymu'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion, ac i sicrhau bod mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol.

Bydd sail statudol yn cael ei rhoi i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, i frecwast am ddim mewn ysgolion ac i gwnsela mewn ysgolion, a bydd beichiau biwrocraidd yn cael eu lleihau drwy brif ffrydio rhaglenni a ariennir gan grant. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn cael mwy o hyblygrwydd ynghylch pennu prisiau prydau ysgol.

Mae'r Bil hefyd yn diddymu'r gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni, ac yn rhoi yn ei le yr hawl i rieni gyflwyno deiseb i'r corff llywodraethu yn gofyn am gyfarfod yn ôl yr angen. Mae hyn yn rhoi rheolaeth i rieni ynghylch pryd y caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau yn y meysydd a ganlyn:

ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder ac ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau addysg os yw hynny'n peri pryder.

canllawiau ar wella ysgolion

trefniadaeth ysgolion

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

cyfarfodydd blynyddol rhieni

codi taliadau hyblyg am brydau ysgol

trosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw:

- brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd a gynhelir gan awdurdodau lleol

- cwnsela mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc o Flwyddyn 6 addysg gynradd hyd at eu pen-blwydd yn 19 oed.